

# Adroddiad blynyddol ar Safonau'r Gymraeg: 1 Ebrill 2020 hyd 31 Mawrth 2021

## Medi 2021



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**

Sefydlodd Deddf yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 y fframwaith ar gyfer ddatblygu safonau Gymraeg newydd, sy'n rhoi hawl i unigolion yng Nghymru dderbyn rhai gwasanaethau yn y Gymraeg. Oddi mewn i'r fframwaith hwnnw, paratôdd Comisiynydd y Gymraeg gyfres o safonau, wedi'u teilwra ar gyfer gweithgareddau categorïau amrywiol o sefydliadau.

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn dod o dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017. Cyflwynodd y Comisiynydd hysbysiad cydymffurfio i ni ym mis Medi 2017, yn datgan y safonau penodol yn y Rheoliadau sy'n berthnasol i CCAUC. Roedd hyn o gymorth wrth ddrafftio cynllun gweithredu i gadw at y safonau.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi:

1. Sut rydym wedi cydymffurfio â'n **safonau gweithredol a'n safonau ar gyfer darparu gwasanaeth a llunio polisi.**
2. Nifer y **cwynion** a gafwyd yn erbyn ein safonau gweithredol a'n safonau ar gyfer darparu gwasanaeth a llunio polisi.
3. **Proffil sgiliau** cyflogeion o ran y Gymraeg.
4. Faint o staff a aeth ar **gyrsiau hyfforddiant** a gynigiwyd gennym yn Gymraeg, a chanran y staff a aeth ar **gyrsiau hyfforddi penodol yn Gymraeg.**
5. Nifer y staff sy'n gwisgo **bathodyn** i ddangos eu bod yn siarad Cymraeg.
6. Nifer y **swyddi gwag a hysbysebwyd fel** swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol.

At ei gilydd, mae'r broses o weithredu'r safonau wedi parhau i gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg yn CCAUC. Mae hyn wedi ehangu proffil yr iaith a chreu amgylchedd mwy croesawgar i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Mae'r holl staff yn ateb y ffôn yn ddwyieithog ac mae staff sy'n siarad Cymraeg wedi cael eu hannog i wisgo cortynnau neu fathodynau 'Cymraeg' neu 'Dysgwr' yn y swyddfa neu mewn digwyddiadau i ddangos eu bod yn gallu darparu gwasanaeth yn Gymraeg, ac i hyrwyddo siarad yn Gymraeg â rhanddeiliaid allanol, ac yn fewnol. Rydym yn parhau i roi'r newyddion diweddaraf am y safonau, ac yn briffio pob aelod newydd o staff am y safonau yn rhan o'u rhaglen ymsefydlu ffurfiol. Ymhlith datblygiadau o bwys yn 2020-21 cafwyd gwefan ddwyieithog newydd sbon, a sicrhawyd bod ein harolwg o agweddau staff ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg am y tro cyntaf. Rydym wedi croesawu'r newidiadau hyn ac yn parhau i weithio tuag at wella ein harferion wrth anelu tuag at fenter Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

# 1. Cydymffurfio â'n safonau o ran cyflenwi gwasanaethau a llunio polisi, a'n safonau gweithredol

## Ymwreiddio'r safonau

Hyd at dair gwaith y flwyddyn byddwn yn ysgrifennu at yr holl staff i'w hatgoffa:

- Sut i ateb galwadau ffôn drwy **gyfarch yn ddwyieithog**.
- I sicrhau bod eu neges '**allan o'r swyddfa**' a'u llofnodion awtomatig yn **ddwyieithog**.
- Bod angen gofyn cyfres benodol o gwestiynau am oblygiadau o ran y Gymraeg wrth gynnal ymgynoriadau.
- I wirio **arwyddion dwyieithog** o amgylch y swyddfa, ac wrth gynnal neu gyfrannu at ddogwyddiadau.
- O'u hawl i dderbyn rhai **dogfennau AD** yn Gymraeg.
- Ei bod hi'n ofynnol darparu gwasanaeth Cymraeg ar gyfer cyfarfodydd a dogfennau am **ymdrin â chwynion** neu **ddyfarnu grantiau a darparu cymorth ariannol** i academyddion neu fyfyrwyr unigol.
- Y dylid cynnwys y datganiad **Cysylltwch â ni yn y Gymraeg neu yn Saesneg | Contact us in English or Welsh** ym mhob llofnod awtomatig a neges 'allan o'r swyddfa'.
- Os yw **dogfen ar gael yn Gymraeg**, bod yn rhaid nodi yn fersiwn Saesneg y ddogfen fod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg.
- Bod taenlen ar gael er mwyn **casglu data am ohebiaeth** yn Gymraeg.
- I ystyried a oes dimensiwn Cymraeg i ddatblygiadau ledled y DU â sefydliadau eraill.
- I ddefnyddio cortynnau **siaradwr/dysgwr Cymraeg**.
- Wrth weithio o bell, parhau i gyfarch yn ddwyieithog wrth **ateb unrhyw alwadau** a gyfeirir drwy CCAUC i ffonau symudol personol.

Rydym hefyd yn cynnig sesiynau gloywi i gydweithwyr a fyddai'n dymuno cael eu hatgoffa o'r dyletswyddau, neu sydd am drafod safonau'r Gymraeg yn fanylach.

## Cydymffurfio

Ni chynhaliom unrhyw gyfarfodydd, na chychwyn gohebiaeth na galwadau ffôn ynghylch cwynion, neu ynghylch dyfarnu grantiau a darparu cymorth ariannol i academyddion neu fyfyrwyr unigol, lle byddem wedi gallu cynnig y Gymraeg fel iaith cyfathrebu.

Byddwn yn atgoffa'r staff i gadw cofnod o'u rhyngweithiadau yn Gymraeg, ac yn gofyn iddynt adrodd am hynny drwy'r arolwg sgiliau a gwasanaethau Cymraeg dros yr haf.

## Cyflwyno CCAUC yn gyhoeddus

Mae staff wedi cymryd rhan yn gadarnhaol yn safonau'r Gymraeg, ac mae pob un ohonynt wedi gallu rhoi **cyfarchiad dwyieithog** wrth ateb galwadau. Fe'u hatgoffwyd o'r gofyniad hwn yn ystod y flwyddyn, a bydd hwn - a safonau'r Gymraeg yn gyffredinol - yn cael ei drafod mewn sesiwn ymsefydlu i bob aelod newydd o staff. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod staff yn gwybod sut i ymateb wrth dderbyn unrhyw **alwadau ffôn** yn Gymraeg. Cawsom ddau alwad ffôn gan alwyr a oedd am barhau â'u hymholiad yn Gymraeg. Ni chawsom unrhyw geisiadau **rhyddid gwybodaeth** yn Gymraeg, ac fe gawsom saith e-bost yn Gymraeg gan ymholwyr newydd.

Rydym wedi rhoi canllawiau i'r staff ar ddefnyddio **llofnod awtomatig a neges allan o'r swyddfa** ddwyieithog, gan anfon nodynnau atgoffa yn ystod y flwyddyn. Mae Swyddog y Gymraeg (ei phrif rôl yn CCAUC yw Uwch Reolwr Cyfathrebu) wrth law i helpu gydag unrhyw ymholiadau.

Mae'r Uwch Reolwr Cyfathrebu wedi parhau i weithio gyda thimau polisi i sicrhau bod trydydd partion yn gwneud defnydd mor gywir ac effeithiol ag sy'n bosibl o **frandiau a chyfathrebu dwyieithog**.

## Cyhoeddiadau, gwefannau a'r cyfryngau cymdeithasol

Mae **cylchlythyrau** CCAUC yn ddogfennau technegol, wedi'u hanelu at gynulleidfa gyfyngedig ymhlith darparwyr addysg uwch Cymru, ac fe'u darperir yn bennaf yn eu hiaith wreiddiol, sef Saesneg. Lle bo cylchlythyr yn gysylltiedig ag un o'r gweithgareddau a drafodir yn benodol yn adran safonau gwasanaeth ein Safonau ar gyfer y Gymraeg, byddwn yn ei gyhoeddi'n ddwyieithog. Dyma'r gweithgareddau hynny:

- Cwynion.
- Dyfarnu grantiau a rhoi cymorth ariannol i academyddion neu fyfyrwyr unigol. (Ond nid dyrannu cyllid i ariannu gweithrediad prifysgolion.)
- Cylchlythyr a fwriedir i fyfyrwyr.
- Testun sy'n berthnasol yn uniongyrchol i'r Gymraeg.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi cylchlythyrau a dogfennau eraill sy'n berthnasol i'r Gymraeg, neu i gynulleidfa gyhoeddus, yn Gymraeg. Roedd y cyhoeddiadau a oedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yn 2020-21 yn cynnwys:

- Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2019-20
- Adroddiad Rheoleiddio Blynyddol 2019/20
- Cynllun gweithredu CCAUC ar gyfer y concordat datblygu ymchwilwyr

- Cynllun bwrsariaethau cymhelliant ar gyfer cyrsiau meistr ôl-radd a addysgir
- Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Canllawiau Cynlluniau Ffioedd a Mynediad
- Adroddiad Blynyddol Data Monitro Cydraddoldeb 2018/19
- Canllawiau Dynodi Penodol ar gyfer Cynlluniau Mynediad a Ffioedd

Roedd deunyddiau GO Wales, gan gynnwys taflenni i fyfyrwyr a chyflogwyr, ac astudiaethau achos, yn dal i gael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gwnaethom ddiweddarau sawl rhan o wefan a system GO Wales yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys y tudalennau i fyfyrwyr a chyflogwyr ar wefan y cyhoedd, a chreu proses newydd i gytuno ar asesiad cyflogadwyedd ar gyfer myfyrwyr cofrestredig.

Wrth inni ymgynghori ar gynlluniau neu faterion ariannu, byddwn yn sicrhau ein bod wedi ystyried effaith polisiâu ar y Gymraeg, a darpariaeth yn Gymraeg o fewn y sector AU yng Nghymru, ac effeithiau posibl ar y saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant. Byddwn hefyd yn gofyn i ymatebwyr am wybodaeth ynghylch effaith eu cynigion eu hunain ar y Gymraeg. O Yn ein hasesiad effaith ar gyfer yr adolygiad o gyllid ymchwil, nodwyd y byddem yn "gwirio a allai gostyngiadau cyllid posibl i rai sefydliadau gael unrhyw effaith andwyol ar y defnydd o'r Gymraeg ai peidio".

Cafodd nifer o **ddogfennau ac ymatebion ymgynghori eraill o bwys** eu llunio'n ddwyieithog yn ystod y cyfnod adrodd, gan gynnwys:

- Cyflwyniad i Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd
- Cofnodion Bwrdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Polisiâu mewnol yn gysylltiedig â chyflogaeth fel ein polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- *Addysg Uwch i'r Genedl Ymwreiddio Sgiliau a Chyflogadwyedd*
- *Addysg Uwch i'r Genedl Cefnogi Myfyrwyr*

## Canllawiau i ddarparwyr

Gofynnir i sefydliadau addysg uwch ystyried goblygiadau ein hymgyngoriadau o ran y Gymraeg.

- Cafodd strategaeth a thempledi astudiaethau achos Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru eu darparu'n ddwyieithog er mwyn sicrhau y gallai darparwyr AU ddarparu fersiynau Cymraeg a Saesneg wrth eu cyhoeddi.
- Mae gofynion Safonau'r Gymraeg wedi'u cynnwys yn ein canllawiau cyllido i sefydliadau AU.

Gwnaethom ddatblygu a lansio gwefan newydd ddwyieithog CCAUC yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r wefan yn cynnwys tudalen ac arni wybodaeth am safonau'r Gymraeg, gan gynnwys yr adroddiad blynyddol ar safonau'r Gymraeg.

Rydym wedi canfod bod y gyfres o Safonau ar gyfer sefydliadau addysg uwch, er eu bod yn wahanol i CCAUC, yn ddefnyddiol wrth ganolbwyntio ar ddarlun ehangach Cymraeg 2050. Fel sefydliad cyhoeddus sy'n gweithio i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, rydym wedi cydnabod gofynion y mae'n rhaid i sefydliadau addysg uwch eu bodloni.

Gwnaethom barhau i sicrhau bod eitemau newyddion, postiau blog, datganiadau i'r wasg, postiau'r cyfryngau cymdeithasol, tudalennau gwefan a deunyddiau cynhadledd ar gael yn ddwyieithog. Buom hefyd yn hyrwyddo postiau Cymraeg gan randdeiliaid ar y cyfryngau cymdeithasol.

Gwnaethom gymryd rhan yn niwrnod hawliau'r Gymraeg ar Twitter.



## Ymatebion a gafwyd yn Gymraeg

Yn ogystal â negeseuon e-bost a chofnodion, rydym hefyd yn derbyn anfonebau cyfieithu dwyieithog.

## Gweithio gyda phartneriaid

Yn ystod 2020-21 buom yn gweithio gyda'r Swyddfa Fyfyrrwyr i sicrhau bod yr adnodd Student Space ar gael i fyfyrwyr yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gwnaethom roi cyllid i Brifysgol Bangor greu ei gwefan llesiant a'i hadnoddau llesiant cyfrwng Cymraeg ei hun.

Gwnaethom barhau i weithio gyda thîm Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (FfRhY) 2021 yn y Swyddfa Fyfyrrwyr er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn ystod trafodaethau ynghylch asesu a dyrchafiad.

Buom yn gweithio gyda Jisc i sicrhau bod y dangosfwrdd mesurau cenedlaethol ar gyfer darparwyr addysg uwch yng Nghymru ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cyflawnwyd gwaith gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod mwy o fedruswydd yn y Gymraeg ar ein Cyngor. Codwyd pryderon gennym â Llywodraeth Cymru y gallai eu penderfyniad i gael gwared â chyfleusterau derbynfa o adeilad ein swyddfa gael effaith andwyol ar allu ymwelwyr i ryngweithio yn Gymraeg. Sicrhaodd Llywodraeth Cymru na fyddai gwneud hynny'n cael unrhyw effaith andwyol.

Rydym yn parhau i weithio gyda'r Swyddfa Fyfyrrwyr i sicrhau bod modd cynnal yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrrwyr yn Gymraeg ac yn Saesneg, a bod deunyddiau ac adnoddau i staff a myfyrrwyr ar gael yn y ddwy iaith. Rydym hefyd yn cydweithio'n agos â'r Swyddfa i sicrhau bod gwefan Darganfod Prifysgol yn gwbl ddwyieithog.

Er bod yr holl gontractau a gyhoeddir gennym yn cynnwys cymal ynghylch y Gymraeg, gwnaethom gynnwys ystyriaethau penodol ynghylch y Gymraeg mewn ymarferion caffael ar gyfer y canlynol:

- Gwefan newydd CCAUC
- Blwyddyn 2 ein contract cyfieithu o Saesneg i'r Gymraeg
- Adolygiad datblygu'r ASA o brentisiaethau gradd

Mae'r contract hyfforddiant Arwain a Rheoli yn cynnwys opsiwn i gynnal yr hyfforddiant yn Gymraeg.

## Digwyddiadau

Sicrhawyd bod cyfieithu ar y pryd ar gael i Saesneg, a bod deunyddiau Cymraeg ar gael ar gyfer y cyfarfod cyhoeddus blynyddol ym mis Rhagfyr 2020.

Darparwyd sleidiau dwyieithog gennym ar gyfer y cyflwyniadau mewn sesiynau hyfforddi cyrff llywodraethu.

## O amgylch y swyddfa

Mae ein tîm cyfleusterau yn sicrhau bod arwyddion yn y swyddfa yn ddwyieithog. Mae CCAUC wedi'i leoli ar un llawr yn un o swyddfeydd Llywodraeth Cymru, ac yn rhannu unrhyw bryderon â Llywodraeth Cymru os ceir unrhyw broblemau yn yr ardaloedd cyffredin. Fodd bynnag, roedd CCAUC wedi'i leoli gartref yn hytrach nag yn y swyddfa yn ystod y cyfnod adrodd.

## Polisiau mewnol ac adnoddau dynol

Mae **Polisiau AD** sy'n ymwneud â chyflogaeth y staff bellach ar gael yn Gymraeg, a gall staff ofyn am unrhyw ohebiaeth ffurfiol sy'n gysylltiedig â'u cyflogaeth ac a anfonir yn

personol atynt hwy, gan gynnwys eu contract cyflogaeth, yn Gymraeg. Mae'r adran AD wedi parhau i sicrhau bod mwy o bolisiau mewnol, ac agweddau ar MySite, ein porth AD mewnol, ar gael yn y Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

Mae safonau'r Gymraeg bellach wedi'u hymwreiddio yn rhaglen archwilio fewnol CCAUC:

Ref	Expected Control	Actual Control	Satisfactory Y/N	Test Programme	System Notes / WP Ref.	Audit Opinion
A1.4.1	<p><b>Welsh Language Standards</b></p> <p>Has the IA identified</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Any effects of the policy on opportunities to use welsh Language and treating welsh language no less favourable than the English Language</li> <li>Whether the policy could be formulated or changed to achieve or increase positive effects or remove or decreased adverse effects on the above. ( <a href="#">as per welsh language standards implementation plan.</a></li> </ul>	Included in IA				

Gwnaethom sicrhau bod ein harolwg o agweddau staff ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg am y tro cyntaf.

## 2. Cwynion




Ni chawsom unrhyw gwynion am y Gymraeg nac ynghylch diffyg cydymffurfio â'r safonau yn ystod y cyfnod adrodd.

Fodd bynnag, gwnaethom gysylltu â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i ddatrys ymholiad ynghylch porthiad cyfryngau cymdeithasol rhaglen bartner a gyllidir gennym. Ni aethpwyd â'r mater ymhellach, gan fod y partner wedi darparu gwybodaeth i'r Comisiynydd i egluro bod mesurau wedi cael eu rhoi ar waith i sicrhau gwell cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg wrth ddefnyddio cyfrifon y cyfryngau cymdeithasol. Caewyd yr adolygiad heb fod angen gweithredu ymhellach.



### 3. Proffil sgiliau Cymraeg

Lefel o Gymraeg	2017 Nifer a %	2018 <i>Nifer a</i> %	2019 <i>Nifer a</i> %	2020 <i>Nifer a</i> %	2021 <b>Nifer a</b> <b>%</b>
0. Dim (Ar wahân i ateb y ffôn drwy ddweud 'bore da' neu 'prynhawn da'.)	9 (21%)	8 (17%)	13 (30%)	16 (36%)	11 (22%)
1. Yn gallu adnabod a defnyddio geiriau a brawddegau cyffredin (ee, 'diolch', 'hwyl fawr', 'sut ydych chi', 'Caerdydd').	15 (36%)	17 (37%)	13 (30%)	9 (20%)	17 (34%)
2. Yn gallu defnyddio neu gynghori cydweithwyr ar eirfa sylfaenol fel misoedd y flwyddyn, a chynnal sgwrs sylfaenol iawn yn Gymraeg.	7 (17%)	5 (11%)	5 (12%)	8 (18%)	9 (18%)
3. Yn gallu cynnal sgwrs syml am waith â siaradwr Cymraeg wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. Yn llunio brawddegau neu'n diweddarau testun gyda rhywfaint o gymorth. Yn gallu dilyn y rhan fwyaf o drafodaethau yn Gymraeg heb ddefnyddio clustffonau cyfieithu.	8 (19%)	11 (24%)	5 (12%)	9 (20%)	8 (16%)
4. Yn gallu trafod gwaith yn hyderus yn Gymraeg. Yn gallu ysgrifennu gohebiaeth, y bydd angen rhywfaint o waith gwirio arni. Yn gallu prawfddarllen dogfennau Cymraeg yn erbyn y Saesneg. Yn helpu cydweithwyr gydag ymholiadau ynghylch y Gymraeg, ac yn Gymraeg. Yn gallu dilyn pob trafodaeth yn Gymraeg.	3 (7%)	3 (7%)	6 (14%)	2 (4%)	2 (4%)
5. Yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus ac yn gywir ym mhob agwedd ar y gwaith, ac yn gyson gywir wrth gynghori eraill ar faterion sy'n ymwneud â Chymraeg ysgrifenedig.	0 0%	2 (4%)	1 (2%)	1 (2%)	3 (6%)



Mae'r safonau wedi bod o gymorth i normaleiddio'r defnydd o'r iaith yn y gweithle, gan gynyddu diwylliant dwyieithrwydd. Rydym wedi gweld cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yn ein swyddfa, ac mae'r safonau wedi gwneud inni ganolbwyntio mwy ar ein staff ein hunain.

Mae dros chwarter y staff yn adrodd eu bod nhw ar lefel lle gallant ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol yn y gwaith, gydag 18% arall yn gallu cyfrannu'n Gymraeg i ryw raddau. Mae'n werth sylwi bod nifer fach ond sylweddol o staff yn newid y categori y maent yn ymberthnasu ag ef o'r naill flwyddyn i'r nesaf, a gall hynny effeithio ar y canlyniadau a gyflwynir yn y tabl. Gall trosiant y staff hefyd effeithio ar y data.

Gan fod y proffil uchod yn dibynnu ar hunanddadansoddiad, hoffem ystyried dulliau mwy manwl gywir o brofi lefelau yn y dyfodol.

## 4. Hyfforddiant staff

Bydd pob cyflogai newydd yn derbyn sesiwn ymsefydlu ar y Gymraeg, ac rydym yn pwysleisio'r ffaith y gallant fanteisio ar hyfforddiant yn ystod eu cyfnod gyda CCAUC. Mae'r staff yn ymwybodol y cânt ofyn i CCAUC ariannu eu hyfforddiant a'u datblygiad yn y Gymraeg, yn enwedig os nad oes cyfleoedd ar gael yn fewnol.

Gwnaethom annog y staff i gysylltu â'r Ganolfan Hyfforddiant Cymraeg Genedlaethol a ffynonellau eraill i holi am ddsbarthiadau yn ystod y flwyddyn. Caiff staff ddilyn y cwrs hyfforddi dechreuwyr ar-lein a gynhelir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn ystod oriau gwaith. Nid yw'r staff wedi manteisio ar yr hyfforddiant ar-lein i ddechreuwyr a ddarparwyd gan y Ganolfan yn ystod y flwyddyn, ac ni ofynnodd neb am gefnogaeth ariannol.

Gwnaethom barhau i helpu staff i dderbyn hyfforddiant Cymraeg, o gyrsiau ar-lein hyd at gyrsiau rhan-amser wyneb yn wyneb a sesiynau preswyl. Buom hefyd yn hyrwyddo [gwefan Cymraeg Gwaith](#), sy'n rhestru'r holl gyrsiau byr Cymraeg Gwaith ar-lein sydd ar gael ar hyn o bryd. Gall staff gyrchu unrhyw un o'r cyrsiau hyn, yn ogystal â chyrchu'r adnoddau dysgu Cymraeg sydd ar gael yn adran 'Dysgu' y wefan.

Wrth weithio o bell, rydym wedi parhau i gynnig sesiynau 'coffi | Cymraeg' wythnosol lle gall siaradwyr Cymraeg o bob gallu sgwrsio a gwranddo mewn lleoliad anffurfiol. Yn wir, mae croeso i unrhyw aelod o staff ddod i'r sesiwn – rydym hefyd wedi gwahodd rhai sy'n brin iawn eu gallu yn Gymraeg, er mwyn iddynt gael arfer clywed y Gymraeg cyn dechrau dysgu'r iaith eu hunain. Yn ôl adborth y staff, mae'r sesiwn anffurfiol hon yn cynyddu eu hyder, yn bleserus, ac o gymorth i wella sgiliau siarad a gwranddo.

Ni chawsom unrhyw geisiadau i gynnal hyfforddiant mewnol drwy gyfrwng y Gymraeg, ac ni chyflwynwyd unrhyw hyfforddiant mewnol drwy gyfrwng y Gymraeg ar recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, cwynion a gweithdrefnau disgyblu, ymdrin â'r cyhoedd na iechyd a diogelwch i'r staff yn ystod y flwyddyn.

## 5. Bathodynnau

Mae bron 20% o'r staff yn bwriadu gwisgo cortyn neu fathodyn i ddangos eu bod yn siarad neu'n dysgu Cymraeg, a byddai'n dda cynyddu hyn wrth ddychwelyd i'r swyddfa.

## 6. Swyddi a hysbysebwyd

Mae ein cylch recriwtio yn ddwyieithog. Mae hynny'n golygu bod pob hysbyseb, gohebiaeth ag ymgeiswyr, gwahoddiadau i gyfweiliad a llythyrau cynnig swydd yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.

Gofynnir i reolwyr llinell – a'r Tîm Rheoli, a all roi safbwynt y sefydliad cyfan – ystyried a yw'r Gymraeg yn ofyniad hanfodol ar gyfer swyddi newydd.

Gwnaethom hysbysebu tair swydd wag yn ystod y flwyddyn adrodd. Pennir bod y Gymraeg yn ddymunol ar gyfer pob swydd gyda CCAUC, ac roedd hyn wedi'i gynnwys yn yr holl hysbysebion a swydd-ddisgrifiadau. Ni phenwyd bod Cymraeg yn hanfodol ar gyfer unrhyw swydd.

Ni chafwyd unrhyw fynegiant o ddiddordeb yn Gymraeg mewn swyddi yn CCAUC.

Ni chawsom unrhyw geisiadau swydd yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn. Credwn fod ymgeiswyr yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'r angen i gyfeirio at eu sgiliau Cymraeg mewn ceisiadau, ac rydym wedi gweld cynnydd ym mynychder y cyfeiriadau, yn enwedig gan fod y Gymraeg wedi'i nodi'n ddymunol ar y swydd-ddisgrifiad ar gyfer pob swydd gyda CCAUC. Rydym hefyd yn cyfeirio at wersi Cymraeg ac at weithredu'n ddwyieithog ar dudalen 'Gweithio i CCAUC' ar y wefan.

Yn ystod y cyfweiliad, mae gennym ddiddordeb yn safbwyntiau ymgeiswyr ynghylch gweithredu mewn amgylchedd gwaith dwyieithog, a'u profiadau o hynny.

Buom hefyd yn hysbysebu swyddi gwag ar bwyllgorau yn ddwyieithog, gan gynnwys ar gyfer ein Pwyllgor Asesu Ansawdd.